**Cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun Medi 22ain 2014 yn Neuadd y Dref Dinbych am 6.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr Rob Parkes, Raymond Bartley, Margaret Bowe, Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Geraint Williams, Colin Hughes, Colin L Hughes, Brian Davies, Mark Young, Roy Tickle, Shereen Lunt, Gaynor Wood, Catherine Jones a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Dim

**Arsylwi:** Cynghorydd Sir Gwyneth Kensler

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac yn arbennig y Cyng Catherine Jones i'w chyfarfod cyntaf.

**88. CCTV Dinbych a Heddlu Gogledd Cymru.** Croesawodd y cadeirydd Cwnstabl Les Jones, Graham Smith (CCTV CSDd) a Wynn Noden (IVID) a'i gwahoddodd i annerch y cyfarfod. Agorodd y Cwnstabl Jones drwy ddweud mai ei rôl oedd fel swyddog partneriaeth a gofynnwyd iddo edrych i mewn i CCTV yn Ninbych. Nid oedd y sustem bresennol oed ym mherchnogaeth y cyngor tref yn un berffaith gyda dau allan o bedwar camera ar eu gorau ddim yn gweithio'n iawn. Bu trafodaethau gyda chlerc y dref. Gorchwyl y cwnstabl Jones oedd sicrhau fod camerâu CCTV yn brwydro troseddu yn y dref. Gosodwyd camera arall ym Mhwll y Grawys gan GSDd. Edrychwyd ar y posibilrwydd o fonitro'r camerâu yn swyddfa heddlu Dinbych ond bu i'r opsiwn hynny, tra'n cael ei dderbyn ar y dechrau, bellach wedi ei ddiystyru gan uwch swyddogion. Aeth Graham Smith ymlaen i ddweud ei fod wedi gweithio am 20 mlynedd gyda CCTV yn Sir Ddinbych. Roedd y cynnig gwreiddiol o symud y CCTV i swyddfa'r heddlu yn un positif ond fod newidiadau ym mhersonél wedi newid hyn. Mynegodd Mr Smith ei bryder ynglŷn ag ansawdd y lluniau o'r sustem bresennol a hefyd nad oedd y cyngor tref yn derbyn y gwasanaeth y dylai ei fod yn ei dderbyn. Opsiynau ar gael oedd (1) i symud y monitro i IVID, (2) i osod sustem CCTV newydd neu (3) i aros fel y mae. Dywedodd Wynn Noden mae gwasanaeth wedi ei leoli'n lleol oed IVID yn gweithio gyda CSDd a Heddlu Gogledd Cymru. Roedd sustem bresennol Dinbych yn hen ac ansawdd y lluniau yn wael. Paratowyd dau ddyfynbris i amnewid y sustem bresennol gyda sustem HD newydd - gwarant a chynnal a chadw yn gynwysedig.
Ymatebodd Wynn Noden i gwestiynau a sylwadau'r aelodau ar (1) yr angen i'r cyngor tref fynd allan i dendro, (2) Fod CSDd yn adolygu CCTV drwy' sir yn gyfan gwbl a chyda'r posibilrwydd o osod sustemau yn y trefi llai - hwyrach fod cyngor tref Dinbych yn mynd o flaen ei dro ar hyn o bryd, (3) monitro'r sustem o swyddfa'r heddlu - pam fod gwahanol uwch swyddogion wedi rhoddi barn wahanol.
**Penderfynwyd cyfeirio'r mater at is bwyllgor TGC y cyngor ac i wahodd Wynn Noden i gyfarfod a'r is bwyllgor.**
Diolchodd y cadeirydd i'r tri am eu presenoldeb a'u cyflwyniad.

**89. Materion Brys**: Nid oedd unrhyw fater brys.

**90. Datganiad Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Geraint Williams – unrhyw faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych
(2) Cyng Colin L Hughes – eitem agenda 9(1) – cymorthdaliadau – Victim Support

**91. Derbyniwyd Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Orffennaf 28ain 2014, a Chofnodion y Cyfarfod Pwyllgorau Cynllunio, Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar Fedi'r 8fed 2014.**

**92. Materion yn codi:** Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**93. Adroddiad y Maer.** Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Maer. Ymhelaethodd y Maer ar un neu ddau o'r materion oedd yn gynwysedig yn yr adroddiad

**94. Llythyrau a Hysbysiadau:** Cytunwyd i nodi pedair eitem o ohebiaeth a dderbyniwyd

2. Cytunwyd i nodi a gweithredu fel bo angen ar y canlynol:

(1) Carers Rights Day – cytunwyd fod y cyngor tref yn cynnig siambr y cyngor fel lleoliad ar Dachwedd 28ain ac ar yn ail Cae Dai.

**95. Cynllunio**: Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd peidio â gwrthwynebu'r cais canlynol am ganiatâd cynllunio:

(1) Arfon, Factory Place

2. Materion Cynllunio eraill. (1) Nodwyd y ddwy dystysgrif cynllunio a dderbyniwyd.
(2) Nodwyd yr ymateb a dderbyniwyd oddi wrth Glyn Evans (Sustrans)
(3) Nodwyd y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth adran cynllunio CSDd ynglŷn â hysbysiad ceisiadau cynllunio.
(4) Dywedodd y Cyng Raymond Bartley y derbyniwyd cais am i ddirprwyaeth o'r cyngor tref gyfarfod gydag asiant phrynwr posibl o America i Ysgol Howell ar y safle i drafod yn anffurfiol defnydd o'r ysgol fel Academi Chwaraeon. Cytunwyd y dylai'r cyfarfod safle gymryd lle a **Phenderfynwyd fod y Cyng Rob Parkes, Margaret Bowe, Mark Young, Gaynor Wood a chlerc y dref yn cynrychioli'r cyngor.**
(5) Dywedodd y Cyng Bartley fod y cais cynllunio ar gyfer yr hen Ffatri Wlân yn dal yn nwylo'r arolygydd cynllunio ac ni chafwyd unrhyw arwydd o'r raddfa amser.

**96. Cofnodion / adroddiadau is bwyllgorau'r cyngor** Cymorthdaliadau: Ystyriwyd cofnodion cyfarfod diweddar. Ystyriwyd a chymeradwywyd pob un cais oedd yn gynwysedig o fewn y cofnodion fel a ganlyn:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Victim Support | - | £100 (A.137)(rhif siec 005456) |
| (2) | Shelter Cymru | - | £100 (A.137)(rhif siec 005457) |
| (3) | CAB Sir Ddinbych | - | £3,500 (A.142)(rhif siec 005458) |
| (4) | Urdd Gobaith Cymru (cymdeithas sirol) | - | £150 (A.145)(rhif siec 005459) |

**97. Adroddiadau**: (1) CCTCGC. Ar gais clerc y dref gohiriwyd y mater yma tan gyfarfod yn y dyfodol.
(2) Llywodraethwyr Ysgol Pendref. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Roy Tickle ar gyfarfod diweddar – roedd pob peth yn dda yn yr ysgol.
(3) Clwb Strôc. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Roy Tickle ar y cyfarfod blynyddol a gynhaliwyd yn ddiweddar - yma eto roedd pob peth yn dda.
(4) Prosiect Ieuenctid Dinbych. Dywedodd y Cyng Mark Young fod y cyfleusterau yn yr Hwb yn rhai ardderchog.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

**98. Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir ar Faterion oedd yn Briodol i Ddinbych yn unig:**

1. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Colin Hughes: (1) Y dylai'r cyngor tref drefnu ymweliad a Hwb Dinbych. (2) Nifer o adroddiadau ynglŷn â minteioedd o bobl ifainc yn defnyddio Cae Howell yn hwyr yn y nos ac yn achosi ymddygiad gwrth cymdeithasol. (3) Ymddygiad gwrth cymdeithasol ym mhob man yn Ninbych Uchaf ac yn symud i mewn i ganol y dref. Mynegodd yr aelodau oedd yn bresennol eu pryder ynglŷn â rhif a lefel bresennol yr

heddlu yn Ninbych. (4) Cyflwynwyd cais ar gyfer hen fwyty'r Asia ym Mhwll y Grawys i newid i far chwaraeon. Roedd y pwyllgor trwyddedu wedi torri'n ôl ar yr oriau a ofynnwyd amdano.

2. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Geraint Williams (1) Yn dal i ddisgwyl canlyniad y cyfarfod Ynglŷn â phibellau plwm ym Mryn Garth.

3. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Raymond Bartley (1) Dau gwmni ar Stâd Ddiwydiannol Colomendy yn adleoli - BOCM i Newcastle and Tweedmill i'r Fflint. (2) Ail wynebu Parc Myddleton - graddfa amser realistig bellach wedi ei nodi a'r gwaith i ddechrau ym mis Tachwedd. (3) Eisteddfod yr Urdd 2018 yn dod i Sir Ddinbych. (4) Trafodaethau yn dal i fynd ymlaen ynglŷn â chyn safle Kwik Save.

4. Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Sir Gwyneth Kensler, ar gais y cadeirydd, ynglŷn â'r Ward Ganol: (1) Drysau'n agored yn yr amgueddfa wedi bod yn llwyddiannus gyda nifer yn mynychu a gwirfoddolwyr newydd. Yn edrych at ehangu partneriaethau gydag eraill. (2) Mount Wood – Byrddau Dehongli wedi eu malu. (3) Lôn Brombil – yn dal i ddisgwyl ymateb oddi wrth Boots the Chemist.

**99. Cyfrifon** 1. Penderfynwyd talu'r cyfrifon canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Canda Copying - costau llungopïwr<br>(rhif siec. 005454) | - | £156.45 |
| (2) | Clerc y Dref – costau teithio (Conwy)<br>(rhif siec 005455) | - | £24.90 |
| (3) | E M Dowell (Uproar) – blaendal tân gwyllt 2014<br>(rhif siec 005460) | - | £3,150.00 |
| (3) | Scottish Power – Gardd Dr E P<br>(rhif siec 005461) | - | £173.87 |
| (4) | Zen Internet – darpariaeth ADSL (Hydref)<br>(rhif siec 005462) | - | £18.37 |
| (5) | Paul Liversidge – clirio llwybrau (Awst)<br>(rhif siec 005463) | - | £165.00 |

Cyfanswm taliadau: £3,688.59

2. Unrhyw faterion ariannol eraill: (1) Nodwyd derbyn £30 oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru.
(2) Nodwyd derbyn £61,488 oddi wrth GSDd sef ail daliad archebiant.
(3) Ystyriwyd y dyfynbris a dderbyniwyd oddi wrth Thomas Fattorini ynglŷn â Chwpan Myddleton. **Penderfynwyd (**yn unfrydol) **i dderbyn y dyfynbris**.
(4) Cyfeiriodd clerc y dref at gais a gyflwynwyd ar ran y tywyswyr gwirfoddol i Cadwyn Clwyd yn ôl ym mis Chwefror 2012 am arian i sicrhau gwahanol eitemau ar gyfer y tywyswyr. Roedd yr ariannu bellach wedi ei gadarnhau a bod cyfraniad cyfatebol y cyngor tref o 20% yn dod i £446.11. Byddai'r ariannu cyfatebol yn dod allan o gyllideb treftadaeth y cyngor. Gofynnodd clerc y dref am i'r cyngor roddi caniatâd i gadarnhau'r ariannu cyfatebol i Cadwyn Clwyd. Rhoddwyd y caniatâd.

**100. Gardd Goffa Dr Evan Pierce.** Dywedodd clerc y dref (1) ei fod wedi trafod cloi ac agor y giât a chasglu sbwriel gyda Mr E Martin. Roedd Mr Martin yn fodlon gwneud y gwaith. Gadawyd lefel tâl i'r cyngor benderfynu. Yn dilyn trafodaeth **Penderfynwyd derbyn derbyniad Mr Martin ac i dalu cydnabyddiaeth o £15 yr wythnos i Mr Martin** - modd y taliad i'w gytuno rhwng Mr Martin a chlerc y dref.

(2) Bin Sbwriel - cyfeiriodd clerc y dref at yr wybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth GSDd ynglŷn â'r math o bin a awgrymwyd. **Penderfynwyd fod yr hyn a awgrymwyd yn dderbyniol ond gyda'r amod fod yr eirfa yn ddwyieithog yn unol â pholisi dwyieithog y cyngor.**

**101. Ad-drefnu / Moderneiddio'r cyngor tref**: Cyfeiriodd y Cyng Colin Hughes, cadeirydd y gweithgor, at yr adroddiad a baratowyd gan y grŵp ac arweiniodd yr aelodau drwy'r adroddiad ac yn arbennig yr argymhellion oedd o fewn yr adroddiad. Cafwyd cryn drafodaeth a gofynnwyd cwestiynau a mynegwyd sylwadau: (1) Sydd fyddai hysbysu'r cyhoedd a'r wasg am gyfarfodydd y pwyllgorau; (2) bydd angen cadeirydd ar gyfer pob pwyllgor; (3) staffio bydd angen ymglymu Adnoddau Dynol; (3) a fyddai'r cynorthwywr yn llawn amser neu yn rhan amser - sut fydd ariannu cynorthwywr o ystyried y posibilrwydd o'r cyngor yn ymgymryd gwasanaethau datganoledig oddi ar GSDd; (4) nid oedd y cyngor tref o dan ddyletswydd i ymgymryd â phob gwasanaeth datganoledig; (5) pwyllgorau yn bod yn quorate; (6) os derbynnir yr argymhellion sut fydda symud y mater ymlaen. Yn y diwedd **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **(1) i dderbyn argymhelliad 6.1 o ddechrau'r flwyddyn ddinesig nesaf gyda'r eithriad 6.1(5) ynglŷn â dechrau am 6 o'r gloch; (2) Aelodaeth pob pwyllgor i fod yn saith mewn nifer; (3) Grŵp o gynghorwyr i weithio gyda chlerc y dref ar effaith polisi dwyieithog y cyngor ac i edrych ar ac os oedd angen i ddiwygio rheolau sefydlog y cyngor; (4) I dderbyn argymhelliad 6.2 ac i is bwyllgor archwilio a phersonél y cyngor ymgymryd â'r dasg o edrych i mewn ymhellach i sefyllfa staffio'r cyngor.**

**102. Marsial Dinesig y Cyngor.** Cyfeiriodd clerc y dref at y swydd wag. Cytunwyd i enwau gael ei gyrru i glerc y dref.

**103. Llywodraethwr Cymunedol Ysgol Frongoch**. Dywedodd clerc y dref, yn dilyn ymddiswyddiad Rachael Tate fel cynghorydd bod angen i'r cyngor apwyntio cynrychiolydd o'r cyngor yn lle Miss Tate fel llywodraethwr cymunedol. Cytunwyd i apwyntio'r Cyng Gaynor Wood

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 8.37 o'r gloch.

Arwyddwyd:...................................................... (cadeirydd)

Dyddiad:........................